

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 4 Mehefin 2015

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 10 MEHEFIN 2015** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)**

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015 (copi ynghlwm).

**7 ADRODDIAD DIWEDDARU YNGLYN Â CHOD GWISG GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno sylwadau i'r Aelodau a gafwyd yn dilyn eu penderfyniad mewn cyfarfod blaenorol mewn perthynas â gwisgo siorts.

**8 POLISI EITHRIO ARDDANGOS PLÂT CERBYD HURIO PREIFAT ARFAETHEDIG** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn argymhell cymeradwyo'r Polisi Eithrio Arddangos Plât Cerbyd Hurio Preifat arfaethedig ar gyfer ymgynghori ffurfiol.

**9 ADOLYGU POLISI CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn diweddarau aelodau ar yr adolygiad o'r Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat presennol a'r camau gweithredu arfaethedig.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015/16** (Tudalennau 31 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn nodi blaenoriaethau'r Adran Drwyddedu ac yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**11 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0269/TXJDR** (Tudalennau 47 - 62)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 15/0269/TXJDR.

**12 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 14/0459/TXJDR** (Tudalennau 63 - 104)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 14/0459/TXJDR.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
Bill Cowie  
Richard Davies  
Stuart Davies  
Hugh Irving

Pat Jones  
Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Peter Owen  
Arwel Roberts  
Cefyn Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Barry Mellor (Is-Gadeirydd), Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

**Arsylwyr:** Y Cynghorydd Meirick Davies ac Alice Jones

### HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) (SD); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## PWYNT O WYBODAETH

Holodd y Cynghorydd Bill Cowie y rhesymeg y tu ôl i Eitem 12 ar y Rhaglen - Caniatâd Cais Masnachu ar y Stryd yn cael ei hystyried fel eitem gyfrinachol o dan Ran 2 o'r rhaglen. Fe wnaeth y swyddogion adrodd ynghylch y broses ymgynghori eilaidd a gynhaliwyd gan yr Aelod Lleol ac eglurasant nad oedd yr ymatebwyr hynny i'r ymgynghoriad wedi rhoi caniatâd i'w sylwadau gael eu rhannu'n gyhoeddus. O ganlyniad rhaid i'r wybodaeth honno aros yn gyfrinachol.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Pat Jones ac Win Mullen-James

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2014 a'r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015.

#### **Materion yn Codi - 12 Ionawr 2015**

Yn ystod y cyfarfod, cafodd datganiad ei gyflwyno gan berchennog tacsî ynghylch cyflwr y diwydiant tacsîs yn Sir Ddinbych. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwarchod y

Cyhoedd fod swyddogion yn edrych i mewn i'r materion a godwyd gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hynny.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2014 a 12 Ionawr 2015 fel cofnod cywir.

## **5 FERSIWN DDIWYGIEDIG O'R COD GWISG ARFAETHEDIG GOGYFER Â GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Cod Gwisg diwygiedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i ymgynghori yn ei gylch a'i gymeradwyo.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ar 24 Medi 2014 wedi cymeradwyo'r Cod Gwisg Gyrwyr ar gyfer ymgynghori yn ei gylch. Roedd manylion yr ymarfer ymgynghori a sesiwn gweithdy gyda deiliaid trwyddedau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac roedd y canlyniadau'n cynnwys -

- un ymateb ysgrifenedig yn croesawu'r Cod Gwisg a chynnig nifer o awgrymiadau ychwanegol i'w hystyried, a
- pwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn gweithdy ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau arfaethedig o ganlyniad i hynny.

Croesawodd y pwyllgor gyflwyniad Cod Gwisg fel modd o wella safonau gwisg a chreu argraff ffafriol ar ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Nododd yr Aelodau'r pwyntiau a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ynghylch safonau derbyniol o wisg, ac roedd peth trafodaeth ynghylch pa mor briodol yw gyrwyr yn gwisgo trowsus byr. Roedd rhai aelodau'n teimlo bod trowsus byr wedi'i deilwra i'r bengl ac is na hynny'n briodol, ac ni ddylid cymharu hwn â gwisgoedd/codau gwisg sefydliadau llawer mwy/gwahanol, yn enwedig o gofio bod llawer o yrwyr yn hunangyflogedig. Fodd bynnag, teimlai aelodau eraill nad oedd gwisgo trowsus byr yn cyfleu'r ddelwedd broffesiynol o'r fasnach ac amlygwyd yr anhawster o feirniadu'r gwahanol fathau o drowsusau byr a wisgir. Mynegwyd rhai amheuan hefyd ynglŷn â gorfodi'r Cod Gwisg cyffredinol a sicrhau cydraddoldeb wrth ddelio ag achosion o dorri rheolau o dan y system pwyntiau cosb. Derbyniwyd y byddai angen monitro gweithrediad y Cod Gwisg yn ofalus, a rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai'r Cod Gwisg yn cael ei gyflwyno'n raddol cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol. Byddai dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gymryd wrth roi pwyntiau cosb, a oedd hefyd yn cynnwys proses apelio. Trafodwyd rôl perchnogion tacsis wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Gwisg ond cydnabuwyd bod y rhan fwyaf o yrwyr yn hunangyflogedig a bod y cyfrifoldeb ar yrwyr unigol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion.

Ystyriodd yr Aelodau argymhellion yr adroddiad a chynigiodd y Cynghorydd Hugh Irving newid i'r Cod Gwisg, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Stuart Davies, gan wahardd trowsus byr. O'i roi i'r bleidlais -

**PENDERFYNWYD:-**



- (a) *yn amodol ar ddiwygiad i 4.2, ii i ddarllen "ni chaniateir gwisgo trowsus byr ", dylid cymeradwyo Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat wedi'i ddiwygio fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad, i ddisodli'r Cod Gwisg presennol a geir ar hyn o bryd yn y "Llyfr Glas" ag amodau trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, a*
- (b) *gweithredu'r Cod Gwisg o 1 Mai 2015.*

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Joan Butterfield a Bill Cowie yn erbyn y gwelliant yn (a) uchod.

## **6 COD YMDDYGIAD DA ARFAETHEDIG AR GYFER GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w ymgynghori yn ei gylch a'i gymeradwyo.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ar 24 Medi 2014 wedi cymeradwyo ymgynghori ynghylch y Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr. Roedd manylion yr ymarfer ymgynghori a'r sesiwn gweithdy gyda deiliaid trwyddedau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni chafwyd ymateb gan ddeiliaid trwydded mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ac roedd deiliaid trwydded yn y sesiwn gweithdy wedi cytuno nad oedd angen diwygiadau. Nodwyd y byddid yn defnyddio system pwyntiau cosb ar gyfer achosion o dorri'r cod.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at ddigwyddiad diweddar yn cynnwys dau yrrwr yn cwffio tra roeddent ar ddyletswydd. Yng ngoleuni'r digwyddiad hwn, teimlai'r Cynghorydd Joan Butterfield y dylid cynnwys rhyw fath o sancsiwn yn y Cod Ymddygiad Da ar gyfer achosion o'r fath. Trafododd yr Aelodau a ellid cynnwys sancsiwn penodol yn y Cod gan gofio amgylchiadau penodol achosion unigol, ac unrhyw sancsiwn wedi hynny y gellid eu gweithredu o ganlyniad i achosion troseddol. Nodwyd y byddai gosod ataliad yn gwahardd unrhyw gamau pellach rhag cael eu cymryd yn nes ymlaen. Yn yr un modd, gallai diddymu ar unwaith heb glywed amgylchiadau'r achos yn gyntaf fod yn gostus i'r Cyngor. O ganlyniad, cytunwyd bod y swyddogion yn gofyn am gyngor ynglŷn â chyfreithlondeb gosod sancsiwn o fewn y Cod ar gyfer y diben hwn, ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol. Tynnodd y Cynghorydd Hugh Irving sylw'r aelodau at y nodyn terfynol ar ddiwedd y Cod yn ymwneud â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, a gofynnodd fod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i osod sancsiwn penodol yn hyn o beth. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Euogfarn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Cymru gyfan yn ddiweddar; polisi cadarn a oedd yn cwmpasu troseddau diod a chyffuriau. Yn olaf, cyfeiriwyd at newidiadau diweddar i'r gyfraith ynghylch gyrru ar gyffuriau, a rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai'r ddeddfwriaeth newydd hon yn cael ei gorfodi gan yr Heddlu.

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) *bod Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, fel y manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo, gan ddod i rym o 1 Mai 2015, a*
- (b) *bod swyddogion yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar gyfreithlondeb gosod sancsiwn o fewn y Cod Ymddygiad Da ar gyfer achosion yn ymwneud â thrais gan yrwyr tacsï tra maent ar ddyletswydd, ynghyd â sancsiynau yn ymwneud â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.*

## **7 AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - DIWYGIADAU ARFAETHDIG YN YMWNEUD Â GWYRO SEDDI CERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth cael gwared ar amod 2.1(h) cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat sy'n ymwneud â gwyro seddi cerbydau hurio preifat.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ar 3 Rhagfyr 2014 wedi cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i ddiddymu'r amod yn ymwneud â gwyro seddi mewn cerbydau hurio preifat yn dilyn y cyfarwyddyd diweddaraf gan yr Adran Drafnidiaeth, a'r pryderon a godwyd gan weithredwyr. Roedd dau ymateb i'r ymgynghoriad wedi dod i law o blaid cael gwared ar yr amod. Cadarnhaodd y Swyddogion y byddai adolygiad o fanyleb cerbyd hacni yn ymwneud â chael gwared ar yr amod yn cael ei gynnal a'i adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol o'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** cael gwared ar amod 2.1 (h) sydd wedi'i gynnwys yn yr amodau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ("Y Llyfr Glas") ar unwaith.

## **8 ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIAD RHYW**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â newidiadau i'r drefn awdurdodi trwyddedu adeiladau sy'n darparu adloniant rhywiol.

Mabwysiadodd Panel Trwyddedu ar 19 Medi 2001 Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn ffurfiol, a oedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trwyddedu sefydliadau rhyw. Roedd ceisiadau ar gyfer clybiau glin-ddawnsio wedi bod yn drwyddedadwy ers 2005 o dan y Ddeddf Trwyddedu, ond roedd Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn ailddosbarthu clybiau glin-ddawnsio fel lleoliadau adloniant rhywiol a rhoddodd y pŵer i awdurdodau lleol reoleiddio lleoliadau megis sefydliadau rhyw o dan Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Fodd bynnag, nid oedd y pwerau hynny'n orfodol, a byddent ond yn berthnasol lle maent wedi cael eu mabwysiadu'n benodol gan awdurdodau lleol. O ganlyniad gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid mabwysiadu darpariaethau Adran 27 a fyddai'n golygu ymgynghoriad cyhoeddus cyn eu gweithredu. Cytunodd y pwyllgor y dylid cymryd camau gyda'r bwriad o fabwysiadu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol a diwygio'r Polisi Sefydliad Rhyw cyfredol yn hynny o beth.

Cadarnhaodd y Swyddogion nad oedd y drefn trwyddedu sefydliadau rhyw yn cynnwys trwyddedu Academiâu Dawnsio Polyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) *gofyn i'r swyddogion lunio Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft sy'n addas i'r diben ar gyfer ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a*
- (b) *mabwysiadu ac ymgorffori darpariaethau adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009, yn y Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft.*

**9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn argymhell adolygiad o'r Polisi Masnachu ar y Stryd presennol.

Roedd gwybodaeth gefndir am y ddeddfwriaeth sy'n rheoli masnachu ar y stryd yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys eithriadau cyfreithiol a mathau o fasnach a reoleiddiwyd gan ddulliau / awdurdodau eraill. Rhoddodd y swyddogion wybod am y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad i adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd presennol er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben, gan gymryd i ystyriaeth anawsterau a gafwyd wrth weinyddu a gorfodi'r polisi cyfredol ac unrhyw ofynion a chanllawiau deddfwriaethol newydd.

Trafododd yr Aelodau gamau rheoleiddio gweithgareddau penodol gyda swyddogion, ac a oeddent yn cynnwys masnachu ar y stryd neu angen mathau eraill o ganiatâd gan gynnwys problemau sy'n gysylltiedig â masnachu cwrt blaen, gwerthu ceir a hysbysebu. Cafodd ei sefydlu, o ran masnachu cwrt blaen, y gellid cymryd camau o dan y Ddeddf Priffyrdd mewn achosion o rwystr, ac roedd camau wedi'u cymryd gan yr awdurdod mewn perthynas â gwerthu ceir. Gallai'r Adran Gynllunio ddelio ag achosion o dorri rheoliadau hysbysebu. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ystyried yr holl bwyntiau hynny wrth gynnal yr adolygiad, ynghyd â gwerthu nwyddau at ddibenion elusennol. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Bill Cowie i fod yn gyswllt y pwyllgor ar ddatblygiad y polisi drafft a chadarnhaodd y Pen Gyfreithiwr na fyddai cysylltiadau'n gwrthdaro pan fydd y polisi drafft yn cael ei gyflwyno wedyn i'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) *awdurdodi Swyddogion i ddrafftio Polisi Masnachu ar y Stryd sy'n addas at y diben, ac*
- (b) *enwebu'r Cynghorydd Bill Cowie i gysylltu â swyddogion tra bod y polisi drafft yn cael ei ddatblygu ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw ymgynghori angenrheidiol cyn cyflwyno aelodau gyda Pholisi Masnachu ar y Stryd arfaethedig.*

## 10 DEDDF GWERTHWYR METEL SGRAP 2013 - Y DIWEDDARAF AM Y POLISI ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar baratoi Polisi Gwerthwyr Metel Sgrap.

Roedd Aelodau wedi cytuno yn flaenorol i ystyried polisi Cymru Gyfan ar gyfer gweithdrefn trwyddedu Gwerthwyr Metel Sgrap. Ar 21 Ionawr 2015, cytunodd y Panel Arbenigol Trwyddedu (LEP) ar fersiwn derfynol o'r polisi i'w ddosbarthu i bob awdurdod trwyddedu Cymru am sylwadau. Rhagwelwyd y byddai'r polisi terfynol yn cael ei gyflwyno i'r LEP ar 22 Ebrill 2015 ac yn dilyn hynny byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu.

Croesawodd y Cynghorydd Hugh Irving ddyfodiad y Ddeddf fel ffordd o ddelio â gwerthwyr sgrap diegwyddor. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r polisi yn helpu i gryfhau prosesau trwy ddarparu meincnod o ddisgwyliadau'r awdurdod trwyddedu a chynorthwyo ymgeiswyr ac asiantaethau eraill i ddeall y gofynion statudol ac wrth gyflwyno ceisiadau.

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

## 11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar weithredu'r cynllun pwyntiau cosb fel rhan o'r broses fonitro. O ystyried y problemau a brofwyd gan y nifer uchel o dacsis sy'n gweithredu yn y Rhyl, gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid ystyried hefyd ail-reoleiddio a chyfyngu ar nifer y tacsis yn yr ardal, a bod adolygiad o faint a lleoliad y safleoedd tacsis yn cael ei gynnal.

Trafododd yr aelodau hefyd eu lleoliad dewisol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, ac roedd barn gymysg ynghylch a ddylid cynnal pob cyfarfod yn Rhuthun neu bob yn ail rhwng Rhuthun a'r Rhyl. Roedd y Cynghorydd Stuart Davies yn awyddus i gynnal rhai cyfarfodydd yn Llangollen. Yn dilyn trafodaeth fer ac o'i roi i bleidlais fe

**BENDERFYNWYD:-**

- (a) yn amodol ar yr ychwanegiadau a grybwyllwyd uchod, cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu, a
- (b) sicrhau cydraddoldeb ar draws y sir, bod y Pwyllgor Trwyddedu'n cael ei gynnal yn Neuadd y Sir, Rhuthun gydag o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal yng ngogledd y sir.

Ar y pwynt hwn (10.40 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

### **12 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 - CAIS AM GANIATÂD I FASNACHU AR Y STRYD**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a ddaeth i law i benderfynu ynghylch Caniatâd Masnachu ar y Stryd;
- (ii) yr ymgeisydd yn bwriadu gweithredu trelar arlwyo symudol sy'n gwerthu bwyd cyflym ym Mharc Busnes Llanelwy;
- (iii) swyddogion ddim mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais oherwydd sylwadau a ddaeth i law yn gwrthwynebu'r cais;
- (iv) cyfeiriwyd at bwerau'r Cyngor wrth benderfynu ar y caniatâd a pholisi cyfredol o ran masnachu ar y stryd, a
- (v) gofynnwyd i'r Ymgeisydd fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei gais ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) grynodedb o'r adroddiad a dywedodd nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol.

Gwrthwynebodd y Cynghorydd Alice Jones (Aelod Lleol) y cais ac adroddodd ar yr ymgynghoriad yr oedd wedi'i wneud gyda busnesau lleol yn yr ardal fasnachu arfaethedig, a thynnodd sylw'r aelodau at y crynodeb o ymatebion a ddaeth i law (fel y nodwyd yn yr adroddiad). Tra bod rhywfaint o gefnogaeth i ganiatáu'r cais gyda chefnogwyr o blaid mwy o ddewis a chystadleuaeth iach rhwng mannau gwerthu bwyd, cafwyd nifer o wrthwynebiadau hefyd ar sail -

- gorddarpariaeth o fannau gwerthu bwyd yn yr ardal
- cystadleuaeth uniongyrchol ac effaith andwyol ar hyfywedd busnesau arlwyo presennol
- yr anawsterau wrth gysoni gwerthu bwyd cyflym gyda nodau bwyta'n iach
- pryderon y byddai'r trelar symudol arfaethedig yn denu modurwyr o'r A55, gan achosi cynnydd mewn traffig a cherbydau nwyddau trwm i'r parc busnes
- problemau posibl wedi'u hachosi gan sbwriel, a
- lleoli trelar symudol nad yw'n cyd-fynd â delwedd y parc busnes.

Ystyriodd y pwyllgor rinweddau'r cais ac roedd rhywfaint o gefnogaeth i ganiatáu'r cais a gadael i rymoedd y farchnad weithredu, gydag aelodau'n dadlau bod

cystadleuaeth rhwng busnesau yn iach. Teimlai'r aelodau hynny y gellid delio ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â sbwriel trwy amodau trwydded, gan ystyried y ddadl dros fodurwyr yn dargyfeirio o'r A55 yn ddadleuol. Teimlai aelodau eraill bod y gwrthwynebiadau'n ddilys, gan ddadlau hefyd fod yna elfen o fasnachu annheg gyda busnesau lleol â mwy o gostau cyffredinol. O'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** gwrthod y cais am Ganiatâd Masnachu ar y Stryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 a.m.

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	10 Mehefin 2015
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706066
<b>TESTUN:</b>	Diweddariad o God Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gan roi sylwadau a dderbyniwyd i Aelodau yn dilyn eu penderfyniad yn ymwneud â gwisgo siorts yn y cyfarfod blaenorol

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Aelodau i ystyried a oes angen unrhyw gamau pellach yn dilyn y penderfyniad i gymeradwyo Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn y cyfarfod blaenorol.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y cafodd Cod Gwisg Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ei drafod yn y Pwyllgor Trwyddedu ar 4 Mawrth 2015. Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cod gwisg arfaethedig gydag un newid i baragraff 4.2.ii o'r Cod Gwisg i "ni chaniateir gwisgo siorts" a rhoi'r Cod Gwisg ar waith o 1 Mai 2015.
- 4.2 Hysbyswyd pob deiliad trwydded o'r penderfyniad hwn mewn Newyddlen a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.
- 4.3 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol yr ymgynghorwyd yn eang ar y Cod Gwisg

- 4.4 gan y Swyddogion tra'r oedd yn y cyfnod drafft. Anfonwyd dogfennau ymgynghori at bob deiliad trwydded a chynhaliwyd gweithdy er mwyn i yrwyr drafod materion. Amlinellodd yr ymgynghoriad gynnig i ganiatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin a'r rhesymau pam y gall fod yn amhriodol i yrwyr wisgo siorts uwchben y pen-glin.
- 4.5 Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod pawb a oedd yn bresennol yn y gweithdy, er mai dim ond chwe gyrrwr oedd yno, yn cytuno â'r cynnig, a chafwyd un ymateb ysgrifenedig y tu allan i'r gweithdy ac roedd hyn i gefnogi gwaharddiad llwyr ar wisgo siorts.
- 4.6 Ar ddiwedd mis Ebrill, yn union cyn gweithredu, cafwyd diddordeb sylweddol gan y cyfryngau o ran y penderfyniad i wahardd gwisgo siorts wrth i yrwyr tacsï dynnu sylw at fodolaeth deiseb.
- 4.7 Cafodd y ddeiseb, a elwir "Deiseb i Yrwyr Tacsï yn Sir Ddinbych Barhau i Wisgo Siorts", ei throsglwyddo i'r Cyngor ym mis Mai 2015 ac mae'n cynnwys tua 500 o lofnodion, ac mae rhai ohonynt hefyd wedi rhoi sylwadau ar y penderfyniad i wahardd siorts.

## 5. **YSTYRIAETH**

- 5.1 O ystyried geiriad y cod gwisg arfaethedig gwreiddiol yn amlinellu siorts hyd at y pen-glin, efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried a roddwyd digon o ymgynghoriad neu drafodaeth i wahardd siorts

## 6. **ARGYMHELLIAD**

- 6.1 Efallai y bydd aelodau'n dymuno cymryd rhai o'r camau canlynol:
- Gadael y Cod Gwisg Gyrrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat fel y cytunwyd ar 4 Mawrth, 2015
  - Gofyn i Swyddogion ddiwygio'r Cod Gwisg er mwyn caniatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin
  - Gofyn i Swyddogion ddiwygio'r Cod Gwisg er mwyn caniatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin, ond bod yn fwy cyfarwyddol, h.y. dim siorts denim na siorts chwaraeon
  - Gofynnwch i Swyddogion gynnal ymgynghoriad byr gyda deiliaid trwyddedau ac adrodd yn ôl gyda'r canfyddiadau er mwyn cael penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.



<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	10 Mehefin 2015
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) <a href="mailto:licensing@denbighshire.gov.uk">licensing@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706451
<b>TESTUN:</b>	Polisi Arfaethedig Eithrio Cerbydau Hurio Preifat Rhag Arddangos Platiau Trwydded

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Cyflwyno Polisi Arfaethedig Eithrio Cerbydau Hurio Preifat Rhag Arddangos Platiau Trwydded, i'r Aelodau ei ystyried, fydd yn caniatáu i'r Cyngor wneud penderfyniadau tryloyw ynghylch pa gerbydau fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eithriad.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno plât neu ddisg adnabod i gerbyd hurio preifat ac na ddylai'r perchennog ddefnyddio, na chaniatáu'r defnydd, o'r cerbyd hwnnw heb arddangos y plât fel y cyfarwyddir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae Adran 75 (3) y Ddeddf hefyd yn rhoi disgresiwn i'r Cyngor i ganiatáu goddefeb i berchennog rhag arddangos y plât trwydded.
- 2.2 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor Bolisi i ystyried ceisiadau ar gyfer eithriad rhag arddangos plât felly mae'n rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i Aelodau'r Pwyllgor hwn.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Adran 75(3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae arddangos platiau adnabod allanol ar Gerbyd Hurio Preifat a bod y gyrrwyr yn gwisgo bathodyn adnabod yn bwysig o ran diogelwch a sicrwydd i'r cyhoedd. Maent yn cadarnhau i'r cyhoedd bod y cerbyd a'r gyrrwr wedi'u cymeradwyo ac felly wedi bod yn destun nifer o wiriadau pwysig cyn rhoi trwydded iddynt.
- 4.2 Fodd bynnag, mae nifer fechan o achosion pan fydd y gofyniad i arddangos platiau adnabod allanol yn achosi goblygiadau diogelwch masnachol ac i'r cwsmer, e.e. ar gyfer unigolion pwysig ac enwogion.
- 4.3 Gall arddangos platiau adnabod, allanol, rwystro rhai cwsmeriaid corfforaethol rhag defnyddio'r gwasanaeth hefyd.
- 4.4 Y drefn bresennol ar gyfer eithrio rhag arddangos platiau yw bod yn rhaid i'r Gweithredwr gyflwyno cais ffurfiol, manwl, a chyflwynir adroddiad i'w ystyried gan Aelodau'r Pwyllgor hwn. Dan rai amgylchiadau, gallai gymryd tri mis cyn y cyflwynir ceisiadau i'r Pwyllgor, oherwydd cyfyngiadau amserlen y Pwyllgor.
- 4.5 Ni fwriedir i holl gerbydau hurio preifat trwyddedig y Cyngor gael eu heithrio rhag arddangos plât adnabod allanol yn unol â gofynion y Cyngor, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid amgylchiadau lle y byddai'n briodol ystyried bod cerbydau sy'n gweithredu'r math hwn o wasanaeth yn addas ar gyfer eithriad o'r fath.
- 4.6 Mae ymchwil wedi amlygu bod Cynghorau sy'n ystyried eithriadau rhag arddangos y platiau yn gwneud hynny ar gyfer cerbydau unigol yn unig ac nid ar gyfer fflyd gyfan, ac yn ystyried rhai neu'r holl ffactorau canlynol:
- Gwneuthuriad a model y cerbyd;
  - Y math o waith a wneir gan y cerbyd trwyddedig;
  - Sut y mae'r gwaith yn wahanol i waith cerbyd hurio preifat arferol;
  - Y math o gwsmer;
  - Nifer y teithiau cerbyd hurio preifat rheolaidd a wnaed gan y cerbyd;
  - Hanes perthnasol yr ymgeisydd mewn perthynas â thorri amodau neu ddeddfwriaeth;
  - Nid yw cost cerbyd yn rheswm digonol unigol i gyflwyno cais am eithriad;
  - Mae'n rhaid i'r cerbydau fod o safon manyleb uchel.
- 4.7 Wrth ddatblygu'r Polisi arfaethedig, nid yw'r Swyddogion wedi darparu rhestr benodol o gerbydau sy'n addas ar gyfer eithriad, ond yn hytrach maent wedi darparu rhestr ddangosol, nad yw'n gyflawn.

4.8 Bydd y Polisi arfaethedig yn darparu canllawiau i ymgeiswyr posibl ar safonau'r cerbyd a ystyrir yn isafswm safon a'r math o gerbyd sy'n ofynnol cyn y byddai'r Cyngor yn ystyried cais o'r fath.

4.9 Os yw'r Aelodau o blaid mabwysiadu'r polisi hwn, bydd yn hysbysu ein deiliaid trwydded a'r cwsmeriaid o ddisgwyliadau'r Cyngor ac yn sefydlu amodau mewn perthynas ag eithriad o'r fath. Yn ogystal â hyn, bydd cyflwyno ffurflen gais a Hysbysiad Eithrio yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o'r ceisiadau hyn.

## **YMGYNGHORI**

5.

5.1 Pe bai'r Aelodau o blaid cefnogi Polisi Arfaethedig Eithrio Cerbydau Hurio Preifat Rhag Arddangos Platiau Trwydded, bydd ymgynghoriad yn dechrau gyda'r holl Ddeiliaid Trwydded. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben cesglir yr ymatebion a'u cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w hystyried.

## **6. ARGYMHELLIAD**

6.1 Bod yr Aelodau'n ystyried cefnogi'r Polisi Eithrio Cerbydau Hurio Preifat Rhag Arddangos Platiau Trwydded, fel y nodwyd yn Atodiad A, a thrwy wneud hynny, yn awdurdodi'r Swyddogion i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol.

6.2

Yn dilyn yr ymgynghori, bydd y Swyddogion yn adrodd unrhyw ymatebion i'r Cyngor Llawn i'w hystyried ac i gymeradwyo'r Polisi arfaethedig newydd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

.....  
**Planning & Public Protection Service**  
 .....

**DRAFT PRIVATE HIRE PLATE EXEMPTION POLICY**

<b>Author / Custodian:</b>	Nicky Jones
<b>Date agreed and implemented:</b>	
<b>Agreed by:</b>	
<b>Frequency of Review:</b>	3 yearly
<b>Review date:</b>	
<b>Equality Impact Assessment completed: (date)</b>	
<b>Member involvement (if any)</b>	
<b>Internal or Public Domain:</b>	Public
<b>Head of Service Approval: (signature &amp; date)</b>	

<b>VERSION CONTROL:</b>			
<b>Reference:</b>	<b>Status:</b>	<b>Authorised by:</b>	<b>Date:</b>
V01	Final / Draft	Head of Service	

## **1. Policy Aim and objectives**

- 1.1 The aim of this policy is to protect the public, whilst taking a balanced approach to licensing requirements.
- 1.2 The principal objective is to formalise the use of discretionary power to allow executive vehicles to operate without displaying the Council's external licence plates

## **2. Introduction**

- 2.1 The Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 requires that identification licence plates be displayed on licensed private hire vehicles and that drivers wear a driver's badge.
- 2.2 The same legislation permits a Licensing Authority to exempt the display of private hire vehicle licence plates and, where the exemption applies, the requirement to wear a private hire driver's badge does not apply.
